

CYNLLUN
IAITH
GYMRAEG

CYNGOR DINAS
BANGOR

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Derbyniodd y Cynllun gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) y Ddeddf ar y dyddiad a nodir yn rhan (b).

Wrth arwyddo rhan (a) isod mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Cynllun hwn ac i weithredu yn unol â'r holl gymalau a amlinellir yng nghorff y Cynllun.

(a) I'w gwblhau gan Faer y Cyngor

Enw'r Cyngor:

Enw llawn y Maer:

Llofnod:

(b) I'w gwblhau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg:

Dyddiad cymeradwyo:/...../.....

+

1. DATGANIAD AGORIADOL

Mae'r Cyngor hwn wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg â'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u anghenion yn well yn eu dewis iaith, mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa o anfantais. Bydd y Cyngor felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin ag ef.

Nod y Cyngor yw:

- galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu drafod gyda'r Cyngor neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn.
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
- annog eraill i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

2. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

2.1. Polisiâu a Mentrau Newydd

2.1.1. Wrth lunio neu ystyried polisiâu a mentrau newydd, bydd y Cyngor yn:

- asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith.
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, ac yn symud yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn bob cyfle a ddaw.
- ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwriad fyddai'n effeithio ar y Cynllun hwn, neu Gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Bwrdd ymlaen llaw.
- sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- sicrhau y bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiâu a mentrau newydd ar waith.

2.2. Safonau Ansawdd

2.2.1. Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth o'r un safon uchel ac yr un mor brydlon yn y ddwy iaith.

3. YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG

3.1 Gohebu Ysgrifenedig

- 3.1.1. Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 3.1.2. Ni fydd ateb gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi oedi.
- 3.1.3 Os derbynir gohebiaeth yn y Gymraeg caiff ei ateb yn y Gymraeg.
- 3.1.4. Bydd gohebiaeth yn dilyn sgwrs ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith person yn Gymraeg.
- 3.1.5. Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei dewis/ddewis iaith lle bo hynny'n hysbys.
- 3.1.6. Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 3.1.7. Bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i gyfieithu gohebiaeth yn ôl yr angen er mwyn ateb llythyrau yn brydlon yn yr iaith wreiddiol.
- 3.1.8. Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am drefnu cyfieithu gohebiaeth.
- 3.1.9 Bydd papur pennawd swyddogol y Cyngor yn cynnwys datganiadau yn y ddwy iaith yn ei gwneud hi'n glir y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

3.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

- 3.2.1 Bydd y Cyngor yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 3.2.2 Bydd pob aelod o staff sy'n ateb y ffon yn gwneud hynny'n ddwyieithog.
- 3.2.3 Bydd aelodau staff di-Gymraeg yn egluro'n gwrtais eu sefyllfa i'r person sy'n galw, gan gynnig ei drosglwyddo i siaradwr Cymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, bydd croeso i'r person sy'n galw adael ei enw a rhif ffôn, gan alluogi siaradwr Cymraeg i ddechreio yr alwad cyn gynted ag sy'n bosib.

3.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor

[sef cyfarfodydd y mae'r Cyngor yn eu trefnu gyda'r cyhoedd e.e. dargyfeirio ffordd, gwella cyfleusterau neu gyfarfod cyffredinol blynyddol. Nid cyfarfodydd rheolaidd y Cyngor lle gall y cyhoedd fynychu a gwranddo, ond nid cyfrannu heb wahoddiad ymlaen llaw – gweler 3.4.]

- 3.3.1 Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor. Gwneir hyn yn glir yn y papurau sy'n galw neu'n hysbysebu'r cyfarfod.
- 3.3.2 Bydd pob hysbysrwydd am gyfarfod cyhoeddus o'r fath yn ddwyieithog, ac yn gwahodd mynychwyr i hysbysu'r Clerc ymlaen llaw o'u dewis iaith er mwyn gallu gwneud trefniadau cyfieithu priodol.

- 3.3.3 Os yw'n hysbys ar gychwyn y cyfarfod bod pawb sy'n bresennol yn siarad Cymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg.
- 3.3.4 Bydd y Cyngor yn darparu offer cyfieithu, yn ôl y galw, mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor.
- 3.3.5 Bydd o leiaf un swyddog neu aelod etholedig yn bresennol ymhob cyfarfod cyhoeddus i groesawu'r cyhoedd ac i ddelio ag ymholiadau, cwestiynau neu sylwadau yn Gymraeg.
- 3.3.6 Bydd unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig megis taflenni neu dryloywon sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfod cyhoeddus yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ddibynnol ar ofynion y gynulleidfa.

3.4 Cyfarfod y Cyngor

[sef cyfarfodydd rheolaidd y Cyngor, sy'n agored i'r cyhoedd, ond lle nad yw'r cyhoedd yn rhan o'r cyfarfod]

- 3.4.1 Bydd pob hysbysiad ac Agenda o gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog.
- 3.4.2 Bydd y cofnodion unai yn ddwyieithog.
- 3.4.3 Bydd y Cyngor yn ymateb yn newis iaith unrhyw ymholwr i geisiadau am wybodaeth sydd yn deillio o'r cofnod, neu unrhyw ran o'r cofnod.

3.5 Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd

- 3.5.1 Bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac yn gofalu fod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud hynny i drafod materion yn y Gymraeg gyda'r Clerc.

3.6 Ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd

- 3.6.1 Pan fydd y Cyngor yn cysylltu â'r cyhoedd trwy offer technoleg gwybodaeth, megis cyfrifiaduron, gwefan, e-bost neu sgriniau cyffwrdd bydd yr wybodaeth yma ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer y cyhoedd.

4. WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.1.1 Bydd delwedd gorfforaethol y Cyngor yn ddwyieithog.
- 4.1.2 Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor yn ymddangos yn ddwyieithog ar bapur pennawd swyddogol, papur ffacs a slipiau cyfarch, ac unrhyw ddeunydd cyhoeddus arall.

4.2 Arwyddion

[Mae'r cymal hwn yn berthnasol i arwyddion swyddfa'r Cyngor, os oes swyddfa, ac unrhyw arwyddion cyhoeddus allanol.]

4.2.1 Bydd pob arwydd gwybodaeth a godir am y tro cyntaf neu yn lle hen arwydd ar eiddo'r Cyngor yn ddwyieithog, ac felly hefyd unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Fe fydd y ddwy iaith yn ymddangos ochr yn ochr â'r fersiwn Gymraeg ar y chwith. Lle bo hyn yn anymarferol bydd y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf. Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn gyfartal yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

4.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau cyhoeddus

4.3.1 Bydd pob deunydd a anelir at y cyhoedd megis dogfennau, deunydd esboniadol neu ffurflenni grant, yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un dogfen. Argraffir y ddau fersiwn ochr yn ochr lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso croesgyfeirio, dosbarthu a chynnig dewis iaith.

4.3.2 Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hawdd i'w cael.

4.3.3 Bydd pob datganiad i'r wasg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ac yn cynnwys enw cyswllt ar gyfer cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn targedu'n benodol papurau bro lleol.

4.3.4 Bydd materion hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog.

4.3.5 Bydd hysbysebion a hysbysiadau y Cyngor, i'w gosod yn y wasg, ar hysbysfyrdau neu mewn unrhyw gyfrwng arall, yn ddwyieithog.

4.3.6 Bydd hysbysebion am swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer yn uniaith Gymraeg ymhob cyhoeddiad, gyda brawddeg esboniadol fel troednodyn yn cael ei chynnwys mewn cyhoeddiadau Saesneg neu ddwyieithog.

4.3.7 Bydd hysbysebion swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg/dwyieithog ac yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg gyda throednodyn yn Saesneg.

4.4 Swyddogaethau statudol ac hyrwyddo

4.4.1 Yn y manylion a roddir i'r rhai sy'n bwriadu ymgeisio am gyfraniad ariannol tuag at weithgareddau lleol, bydd y Cyngor yn gwneud yn glir fod angen i ymgeiswyr ddisgrifio sut y maent yn bwriadu adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned a'u cynulleidfa yn y gweithgareddau y maent yn gofyn am gefnogaeth ariannol tuag atynt. Wrth bwysu a mesur ceisiadau, bydd y Cyngor yn sicrhau fod ymgeiswyr wedi adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned a'u cynulleidfa yn briodol yn eu cais.

4.4.2 Rhennir y grantiau yn unol â hynny, ac arolygir cydymffurfiaid â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor trwy ofyn am adroddiad cydymffurfio.

4.4.3 Bydd y Cyngor yn ffafrio ceisiadau sydd wedi adlewyrchu'n briodol natur ieithyddol y gymuned a'u cynulleidfa.

4.4.4 Bydd y Cyngor hefyd yn hysbysu'r ymgeisydd bod y Fenter Iaith leol yn medru darparu cyngor a chymorth ymarferol ynglŷn â chynnwys dwyieithog y gweithgaredd, gan gynnwys gwybodaeth ar unrhyw grantiau sydd ar gael at y pwrpas hwn.

- 4.4.5 Pan ymgynghorir â'r Cyngor ar geisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn annog ymgeiswyr i godi arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog ar safleoedd megis swyddfeydd, busnesau a siopau ac archfarchnadoedd drwy gyfeirio at natur ieithyddol yr ardal.
- 4.4.6 Pan ymgynghorir â'r Cyngor ynglŷn ag enwau strydoedd, datblygiadau ac ystadau newydd bydd y Cyngor yn cefnogi defnyddio enwau safonol, neu enwau cynhenid pan fo'n briodol. Lle mai dim ond mân wahaniaeth sydd rhwng y sillafiad Cymraeg a'r Saesneg o enw lle, stryd, ward, neu gymuned bydd y Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r ffurf Gymraeg. Bydd y Cyngor yn ceisio barn y Panel Safoni enwau lleoedd cenedlaethol mewn achosion lle bo ansicrwydd.

4.5 Gwasanaethau gan Bartïon Eraill

- 4.5.1 Bydd unrhyw drefniadau a wneir gan y Cyngor i ddefnyddio trydydd bartïon i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar ei ran yn cydymffurfio â gofynion penodol y Cynllun fel a amlinellwyd gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn nodi pa fesurau perthnasol o'r Cynllun y bydd angen i'r trydydd parti gydymffurfio â nhw yn y manylebau tendro neu contract.
- 4.5.2 Bydd angen i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda mesurau perthnasol o'r Cynllun trwy lythyr.

5. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

5.1 Staffio

- 5.1.1 Mae pob aelod o staff y Cyngor sy'n delio gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog. Pan ddaw'r swyddi yma'n wag, fe fyddant yn cael eu llenwi gyda staff ddwyieithog er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu gweithredu holl gymalau'r Cynllun hwn.

5.2 Trefniadau Gweinyddol

- 5.2.1 Mae gan y Cynllun hwn gefnogaeth lawn y Cyngor.
- 5.2.2 Y Clerc fydd yn gyfrifol am weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor. Yn ôl y galw bydd y Clerc yn sicrhau bod canllawiau a chyfarwyddiadau ar gael i bawb sydd yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun.

5.3 Y Gwasanaeth Cyfieithu

- 5.3.1 Y Clerc fydd yn gyfrifol am anghenion cyfieithu ysgrifenedig y Cyngor, a bydd hefyd yn gyfrifol am safon pob testun Cymraeg a gynhyrchir.
- 5.3.2 Os nad yw'r Clerc yn medru cwblhau'r gwaith yn yr amser angenrheidiol, bydd y Cyngor yn cyflogi cyfieithydd allanol.
- 5.3.3 Y Clerc fydd yn gyfrifol am drefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl anghenion y Cyngor.

5.4 Monitro

- 5.4.1. Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun.
- 5.4.2. Bydd y Cyngor yn derbyn Adroddiad blynyddol byr ar weithrediad y Cynllun, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n lleol (y wasg leol, byrddau arddangos lleol, papur bro misol ayyb), ac anfonir copi ohono at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd y Cyngor hefyd yn gwahodd trigolion yr ardal i gynnig eu barn am y gwasanaeth a sut y gellir ei wella, trwy gadw copi o'r Adroddiad mewn man cyhoeddus.
- 5.4.3 Bydd yr Adroddiad yn delio â phob agwedd o'r Cynllun Iaith.
- 5.4.4. Bydd y Cyngor yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd (trwy lythyr neu dros y ffôn) ar sut i wella unrhyw agwedd o'r Cynllun.

5.5 Cyhoeddusrwydd

- 5.5.1. Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun yn rheolaidd trwy'r wasg leol ac/neu ar ei fyrddau hysbysebu.

5.6 Cysylltu â'r Cyngor

- 5.6.1. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun i sylw Clerc y Cyngor.

6. AMSERLEN

- 6.1. Mae'r Cyngor eisioes yn gweithredu'n ddwyieithog ac wedi bod yn gwneud hyn yn gyson ers 1999. Bydd yn parhau i weithredu'r Cynllun yma yn y dyfodol.